barod

# Mae profi yn helpu pobl i osgoi cymryd cyffuriau marwol

**Rydym yn dymuno i wasanaethau archwilio cyffuriau fod yn rhan o ymyriadau lleihau niwed ar draws Cymru.**



Credyd llun: The Loop

## Beth yw archwilio cyffuriau?

Mae gwasanaethau archwilio cyffuriau yn helpu pobl i brofi eu sylweddau, yn aml wrth iddynt gyflwyno eu sampl heb yr angen iddynt ofni y byddant yn cael eu harestio, yna rhoddir gwybodaeth i unigolion am gynnwys eu sylweddau, yn ogystal â chyngor wedi'i deilwra ynghylch lleihau niwed ac yn aml, ymyriadau byrion. Nod y gwasanaeth yw lleihau'r niwed a achosir gan gyffuriau trwy alluogi pobl sy'n defnyddio sylweddau i wneud dewisiadau mwy gwybous ac osgoi cymryd difwynwyr a chyffuriau nas dymunir.[1] Mae'r angen am wasanaethau cymunedol mor sylweddol ag erioed, o ystyried bygythiadau sylweddau peryglus a gwenwynig, ac opioidau synthetig yn fwyaf arbennig, sy'n ymddangosyn y farchnad cyffuriau anghyfreithlon.

Mae modelau gwasanaethau archwilio cyffuriau amrywiol yn bodoli. Yng Nghymru, mae WEDINOS [2], sef prosiect lleihau niwed a gaiff ei hwyluso gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi darparu gwasanaeth dienw, gan ganiatáu i bobl gyflwyno eu samplau i'w profi er 2013. Mae'n rhan hanfodol o'r strategaeth lleihau niwed yng Nghymru. Fodd bynnag, ceir oedi rhwng cael y sampl a chyhoeddi canlyniadau'r gwaith o'i ddadansoddi, yn ogystal â diffyg cyngor wedi'i deilwra ynghylch lleihau niwed yn cael ei roi. Oherwydd eu bod wedi'u lleoli o fewn gwasanaethau cymunedol, gall gwasanaethau trin presennol gynnig gwybodaeth amserol am gynnwys y samplau a brofir, yn ogystal â chynnig cysylltiad dynol trwy gael trafodaethau wyneb yn wyneb er mwyn lleihau niwed ac agor y drws i bobl fanteisio ar driniaeth yn ôl y gofyn.

## Beth mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu?

Dechreuodd The Loop, NGO nid-er-elw penodedig sy'n archwilio cyffuriau, gynnig gwasanaethau mewn dwy ŵyl yn 2016 cyn cyflwyno eu gwasanaethau yn ehangach ar draws y DU. Bu'r budd a sicrhawyd gan eu gwasanaethau yn arwyddocaol. Pan hysbyswyd unigolion o'r ffaith bod y sylwedd a gyflwynwyd ganddynt i The Loop i'w brofi yn cynnwys rhywbeth ac eithrio'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl, roedd bron i ddau o bob tri wedi gwaredu eu sampl cyfan.[3] Canfuwyd hefyd, ar gyfer y samplau hynny a oedd yn cyfateb â'r bwriad i brynu, bod bron i hanner wedi adrodd eu bod yn bwriadu defnyddio llai nag yr oeddent wedi bwriadu ei wneud yn wreiddiol.[4] Yn ogystal, adroddodd un o bob pump eu bod wedi rhoi gwybod i'w ffrindiau am sylwedd sy'n destun pryder.[3] Yr hyn a fu'n amlwg hefyd yw bod gwasanaethau archwilio cyffuriau wedi bod yn ymgysylltu â phobl sy'n fwy tebygol o fod wedi defnyddio ystod ehangach o gyffuriau yn ystod y mis diwethaf, yn ogystal â'r ffaith nad oeddent wedi manteisio ar wasanaethau trin yn flaenorol ynghylch eu defnydd o sylweddau.[4] Felly, mae gwasanaethau archwilio cyffuriau yn cynnig y sylfaen er mwyn ymgysylltu gyda a chynnig cyngor lleihau niwed sy'n achub bywydau, i groestoriad ehangach mewn cymdeithas, gan helpu i ddatblygu'r darpariaethau presennol sy'n cael eu hwyluso gan wasanaethau trin.

### Ffeithiau allweddol

Ym mis Ionawr 2024, lansiodd The Loop wasanaeth archwilio cyffuriau cymunedol rheolaidd cyntaf y DU yn y DU, yng nghanol dinas Bryste. Gall aelodau'r cyhoedd fanteisio ar y gwasanaeth dienw hwn trwy gyflwyno sylwedd i'w brofi. Cyn pen awr, gall unigolyn gael canlyniadau eu sampl a chael cyngor lleihau niwed wedi'i deilwra. Mae hefyd yn cynnig y posibilrwydd i bobl siarad yn agored a chael gwybodaeth lle na fydd unrhyw un yn eu beirniadu, yn ogystal â chynorthwyo pobl i fanteisio ar gymorth neu driniaeth arall os ydynt yn dymuno.[6]

Ar hyn o bryd yn y DU, gall gwasanaethau archwilio cyffuriau weithredu o fewn y gyfraith trwy gyfrwng trwydded gan y Swyddfa Gartref sy'n galluogi gwasanaethau i weithredu heb iddynt orfod ofni sancsiynau troseddol am y gwasanaeth ei hun ac i unigolion sy'n bwriadu manteisio ar y gwasanaeth. Yn ogystal, mae ymchwil wedi dangos bod heddweision wedi mynegi cefnogaeth gyffredinol ar gyfer gwasanaethau archwilio cyffuriau er mwyn cyd-fynd â newid parhaus tuag at blismona sy'n canolbwyntio ar iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, bernir bod newid deddfwriaethol yn bwysig er mwyn caniatáu cefnogaeth ar gyfer cyfleusterau o'r fath, fel ffordd o gynnig 'sicrwydd' i'r heddlu.[5]

barod

## Pam nawr?

Yn 2022, cofnodwyd y trydydd ffigwr uchaf erioed yng Nghymru o ran nifer y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau. Mae'r tri ffigwr blynyddol uchaf sy'n gysylltiedig â marwolaethau oherwydd cyffuriau yng Nghymru wedi digwydd yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf,[7] a cheir pryderon o fewn y sector bod hyn yn mynd i waethygu am gryn amser eto, o ystyried ymddangosiad opioidau synthetig, ac yn fwyaf nodedig, nitazinau yn y farchnad cyffuriau anghyfreithlon. Cafodd WEDINOS eu sampl cyntaf a oedd yn cynnwys nitazin yn ôl ym mis Ebrill 2021, ac ers hynny, o blith y samplau y canfuwyd eu bod yn cynnwys sylweddau o'r fath, nid oedd unrhyw un ohonynt wedi cael eu cyflwyno ar ôl rhestru nitazen fel y bwriad wrth eu prynu. [8] At hynny, adroddodd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol y bu 101 o farwolaethau rhwng 1 Mehefin 2023 a 22 Chwefror 2024 yr oedd modd eu cysylltu â nitazinau, sef cyfradd o dri unigolyn yr wythnos.[9] Yn ogystal, rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, cafodd WEDINOS dros 1,200 o samplau lle'r oedd pobl yn creu mai diazepam oeddent. Fodd bynnag, dim ond 45% o'r samplau hyn oedd yn cynnwys diazepam, sy'n golygu bod y mwyafrif yn cynnwys sylweddau eraill, a bensodiasepinau mwy peryglus yn aml.[8] Mae hyn i gyd yn amlygu'r ffaith bod pobl sy'n defnyddio sylweddau mewn mwy o berygl, wrth iddynt gymryd sylweddau mewn ffordd anfwriadol, y gallent fod yn fwy peryglus a gwenwynig na'r hyn y maent yn credu sydd yn eu sampl, ac o ganlyniad, bydd eu hiechyd mewn mwy o berygl.

Mae'r dystiolaeth sy'n gysylltiedig â gwasanaethau archwilio cyffuriau yn amlygu'r ffaith bod darpariaethau o'r fath yn caniatáu gweithgarwch ymgysylltu â phoblogaethau nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau trin fel arfer, ond gall gynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl sy'n bwriadu defnyddio sylweddau yn gwneud penderfyniadau mwy gwybodus, gan leihau niwed arwyddocaol felly, gan gynnwys marwolaethau cynnar. Gall gwasanaethau archwilio cyffuriau gyflawni rôl arwyddocaol mewn systemau rhybuddio cynnar hefyd, trwy nodi tueddiadau mewn marchnadoedd cyffuriau anghyfreithlon a defnydd cyffuriau. Gall hyn helpu i lunio rhybuddion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol am gyffuriau er mwyn codi ymwybyddiaeth o fesurau lleihau niwed i leihau risg dioddef digwyddiad iechyd y cyhoedd, o ganlyniad i sylweddau a allai achosi perygl i iechyd y cyhoedd.

Caiff gwasanaethau archwilio cyffuriau cymunedol eu hwyluso eisoes yn Y Swistir, Canada, Lloegr a'r Iseldiroedd.[10] Trwy gynnwys y gwasanaethau hyn yn y strategaeth lleihau niwed yng Nghymru, a chyd-fynd â'r gwaith a wnaethpwyd eisoes gan WEDINOS, gallai mesurau o'r fath leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau yn sylweddol, a helpu i weithio tuag at Gymru iachach a mwy cydlynus, yn ogystal â sichrau bod Cymru yn dilyn yr arfer gorau ar lefel ryngwladol.

## Beth mae Barod wedi ei wneud a beth yw ein camau nesaf?

Cyn pandemig Covid-19, roedd ein gwasanaeth yn Abertawe yn mynd trwy'r broses o wneud cais am drwydded gan y Swyddfa Gartref, yn dilyn y cais llwyddiannus am gyllid, er mwyn hwyluso peilot archwilio cyffuriau cymunedol dros gyfnod o fis o'r lleoliad yn Abertawe. Gyda'r cyllid wedi cael ei sicrhau o hyd, rydym wedi ailystyried y cais i'r Swyddfa Gartref am drwydded, gyda'r gobaith y byddwn yn llwyddiannus unwaith eto cyn bo hir.

Yn dilyn hyn, yn ogystal â cychwyn y gwasanaeth archwilio cyffuriau cymunedol rheolaidd ym Mryste, a gaiff ei hwyluso gan The Loop, credwn y dylid darparu gwasanaeth o'r fath mewn ardaloedd eraill ar draws Cymru, i gyd-fynd â mentrau lleihau niwed eraill gan gynnwys Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrellau, fel ymateb i fygythiadau cynyddol yn y farchnad cyffuriau anghyfreithlon, a niwed a achosir gan ddefnyddio sylweddau yn y presennol a'r dyfodol.

## Beth ydym yn ei ddymuno?

- Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno gwasanaethau archwilio cyffuriau cymunedol yn y strategaeth lleihau niwed yng Nghymru, er mwyn helpu i leddfu'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau a gweithio tuag at Gymru iachach.
- Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ariannu gwasanaethau archwilio cyffuriau cymunedol peilot mewn ardaloedd amrywiol ar draws Cymru a bod gwaith gwerthuso academaidd allanol yn cael ei gynnal am yr holl brosiectau peilot.

barod

# Cyfeiriadau


1. Barratt, M. & Measham, F. (2022) What is drug checking, anyway? -
2. WEDINOS
3. Measham, F. & Turnbull, G. (2021) Intentions, actions and outcomes: A follow up survey on harm reduction practices after using an English festival drug checking service
4. Measham, F. & Simmons, H. (2022) Who uses drug checking services? Assessing uptake and outcomes at English festivals in 2018
5. Falzon, D. et al. (2022) Challenges for drug checking services in Scotland: a qualitative exploration of police perceptions
6. The Loop (2024) City Centre Drug Checking
7. Office for National Statistics (2023) Deaths related to drug poisoning by selected substances, England and Wales
8. WEDINOS (2023) Annual Report April 2022 - March 2023
9. BBC News (2024) Deadly opioids smuggled into UK in dog food, BBC learns
10. Transform Drug Policy Foundation. Drug Checking Services